# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER**
**30 Gorffennaf 2024**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, R G Parry, S Jones, G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng C Thomas, H Owens, G Parry, J Earnshaw, D Fowlie (Cyngor Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.06.24 fel cofnodion cywir. Cyng P Roberts yn cynnig a Cyng H N Evans yn eilio. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes Chwarae CCTV** – Mae hyn yn parhau. Mae'r Brifathrawes yn trafod y mater gyda'r Cyngor Sir |
| **4.2** | **Bin Lon Ty Hen** - Mae'r Clerc yn aros am ganiatâd y Cyngor Sir i osod bin yn Lôn Ty Hen |
| **4.3** | **Cysegru tir ychwanegol y Fynwent** - mae'r Clerc yn aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru. |
| **4.4** | **Draenio y maes Chwarae** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir a allant wneud unrhyw beth i helpu oherwydd eu bod yn berchen ar y tir. |
| **4.5** | **Neuadd yr Eglwys** - Dywedodd y Cadeirydd eu bod wedi derbyn grant o £1800 tuag at y neuadd. Gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda yn awr. |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd, yn ychwanegol at y grant i neuadd yr eglwys, fod Cynghrair Crigyll hefyd wedi rhoi grantiau i Gapel Engedi a'r Ysgol Feithrin. Mae fandaliaeth wedi digwydd eto ar y maes chwarae. Offer wedi torri a gwydr wedi torri wedi ei osod yn nhwnnel yr offer newydd. Bydd y Clerc yn adrodd y mater i'r Heddlu. |
| | Llofnod…….Cadeirydd 10.09.24 |

| | |
|---|---|
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Cynllunio** |
| **6.1** | MIG/2024/1 Cais ar gyfer ymestyn y chwarel wenithfaen bresennol a chadarnhau'r amodau cloddio am fwynau sydd ar waith yn y chwarel ehangach yn Chwarel Cae'r Glaw Gwalchmai. Mae'r cais hwn wedi'I "alw I mewn". Bydd y Clerc yn anfon gwrthwynebiadau I'r Cyngor Sir ar yr un llinellau a rhai Cyngor Cymuned Trewalchmai |
| | **Priffyrdd** |
| **6.2** | **Cyflymder Engedi** - Mae'r Cyngor Sir wedi ymateb gan ddweud nad ydyn nhw'n fodlon newid y cyfyngiad cyflymder traffig yn Engedi i 20mya. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu pan ddaw canllawiau newydd i law gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yr aelodau'n fodlon â'r ymateb. Bydd y Clerc yn ysgrifennu atyn nhw i ofyn a ydyn nhw'n barod i ostwng y cyfyngiad yn y cyfamser i 30mya |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | **Adroddiad Rospa -** Mae Mr Brian Jones wedi cynnig gwneud mân waith ar ôl derbyn yr adroddiad. |
| **7.2** | **Y Rhwyd -** Derbyniwyd cais am rodd ariannol. Cytunwyd i gynnig £100.00 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | **Eglwys Llanbeulan** - Gofynnwyd i'r Clerc ddarganfod pryd y torrwyd mynwent a llwybr Llanbeulan ddiwethaf. |
| **8.2** | **Mynwent Bryngwran** - Soniodd y Cyng Sioned Jones bod angen torri'r cloddiau yn y fynwent. Cytunwyd i gynnal cyfarfod safle. |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | Anglesey Aggregates £374.45 (llenwi tyllau Bryngwran Ffarm) |
| **9.2** | Humphreys Waste £36.00 (Anf 10990) |
| **9.3** | Humphreys Waste £24.00 (Anf 11502) |
| **9.4** | Rospa £108.00 |
| **9.5** | Zurich Municipal £221.16 (premiwm ychwanegol cysgodfan bws ac offer maes chwarae) |
| **9.6** | Costau y Cadeirydd £117.95 |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| **10.1** | Traffig yn gadael Plas Crigyll |
| **10.2** | Camfa Tyn Coed Bach |
| | Llofnod…….Cadeirydd 10.09.24 |